# FY NGHYFEILLION ANWYL.

DEISYFIAD ffyddlon fy nghalon ydoedd ar bob amser ychwanegu happusrwydd dynolryw, ac yrydwyf yrwrhon yn tystio nad oes gennyf ddim bwriad arall yn eich annerch chwi yn y modd yma, ond i ddangos fy ewyllys da tu ag attoch.

Chwi y glywsoch yn ddiammeu, am y modd newydd yr arferir impio Brech y Fuwch, ac fel y galloch ganfod y manteision anferth sydd yn deilliaw oddiwth hynny, myfi y ymegniaf iw dangos hwynt i chwi.

Y mae'r saldra perthynol iddi mor ysgafn, nad yw prin yn peri awr o afiechyd.

Nid yw parottoad o physygwriaeth yn anghenrheidiol, ac nid ydyw yn gofyn ymarfer rhyw luniaeth pennodol.

Gellir ei rhoddi hi ar y Plentyn ieuangaf yn ddiberygl.

Nid oes dim canlyniadau drwg yn perthyn iddi, ond yn y gwrthwyneb, yr ydys yn dal sulw bod plant drwg eu hiechyd yn cynnyddu mewn iechyd ar ol ei derbyn hi

Y mae yn rhwystr siccr ir Frechwen, fel y gellir dangos drwy filoedd o brofiadau.

Nid yw yn gadael na nodau na chreithiau, ond un graith ydyw y cwbl oll a welir ar ei hol hi.

Yr ydys yn tybied fod dau gan mil o filoedd o bobl wedi derbyn y dolur hwn yn ddiogel yn amryw gyrrau o'r byd.

Nid ydyw yn heintus, ac nid yw yn tannu ar led oddiwrth y naill ddyn at y llall, ond wrth ei soddi hi yn y croen.

Y mae rhai o deuluoedd pennaf y deyrnas wedi rhoddi profiad amlwg ou tyb dda o honi, wrth ei rhoddi ar eu plant yn lle y frech wen.

Ymae seneddwyr y deyrnas wedi cael eu hargyhoeddi gymmaint o'r manteision llesol sydd y tarddu oddiwrth Frech y Fuwch, a'u bob hwy wedi pennu gwobr o ddeng mil o bunnau i athraw Jenner, meddyg yn Swydd-Gaerloyw, am iddo ei hamlygu hi yn gyntaf i'r byd.

Cymmharwch hyn gyda'r frech wen, a chwi a gewch weled y gwahanieth sydd rhyngddynt.

Y mae'r Frechwen naturiol yn g[illegible]wydus, a bod fel y tybir un o chwech yn marw o honi. Y mae'r [illegible]ir trwy impiad, o dyneraach natur, ond y mae afiechyd trwm yn [illegible]n aml, ac yr ydys yn tybied bod un o dri chant yn cael eu dwyn ym[illegible]. Ac er mwyn myned drwy'r clefyd yma yn ddiogel, y mae yn gofyn llawer o physygwriaeth, a dyfalwch diwyd at luniaeth pennodol, er parottoad. Ac y mae hi yn aml yn magu clefydon eraill, y rhai ydynt yn bur anhawdd eu hiachau.

Y mae hi yn dra heintus. ac yn y lle y byddo un yn glaf o'r clwyf, y mae holl drigolion y gymmodogaeth sydd heb gael y frechwen o'r blaen, mewn perygl o'i derbyn hi.

Y mae'r clwyf yma wedi ymledu cymmaint ar ol arferu impiad yn ei lle hi, a bob rhifedi y marwolaethau wedi ychwanegu dau ar bymtheg mewn mil; gan hynny yr ydwyf yn meddwl, na's gwna un dyn sydd yn prisio iechyd ei deulu ei hun, neu happusrwydd ei Gymmodogion, oddef i'r frechwen ddyfod i fewn iw dy. Gellwch, ondodid, wrthwynebu derbyn clwyf oddiwrth anifail, ond ar ol ystyried hyn am ychydig o amser, chwi a hoffwch Frech y Fuwch megis Brech fwyn, yr hon sydd feddyginiaeth yn hytrach na chlefyd. Onid ydych yn rhoddi llaeth yr anifail ic'h plant megis y bwyd mwyaf maethol ac iachus y gallant ymborthi arno; ac oni fydd yn dda gennych chwi eich hunain wledda ar gig yr unrhyw lanifail?

Chwi a wyddoch yr awr hon, am y rhagoriaeth sydd rhwng y ddau fodd o impiad, ac y mae gennych ryddid i ddewis yr hon yr ydych yn ei feddwl a fydd mwyaf llesad i chwi.

Geill y Rhieni sydd yn ewyllysio cael impio eu plant a Brech y Fuwch, gael hynny yn ddigost, wrth ymofyn yn y meddygdy ym Mangor, ar ddydd mawrth a dydd Gwener, o ddeg i ddeuddeg o'r gloch yn y boreu.

Broster, Printer, Bangor.